# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 25.05.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ieuan Roberts, W. Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd – Llygredd) Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GWESTY'R HARBWR, LÔN ENGAN, ABERSOCH, PWLLHELI**

__**Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod:**__

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru) a'r Cwnstabl Andrew Vowell

**Ar ran y Gwrthwynebwyr:** Mrs Yvonne Lloyd Jones

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd R.H. Wyn Williams

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Gwesty'r Harbwr, Lôn Engan, Abersoch, Pwllheli am drwydded eiddo i ganiatau cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dawnsio a'r gwerthiant o alcohol rhwng 11.00 a 00.30 bob dydd o'r wythnos, gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 08.00 a 01.00 bob dydd o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na'r Adran Iechyd Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Nid oedd gan yr Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau ar y cais. Derbyniwyd llythyrau gan yr aelod lleol a Chyngor Cymuned Llanengan yn rhoddi sylwadau ar y cais a llythyrau gan drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais. Nodwyd bod tri o'r gwrthwynebwyr wedi ymddiheuro gan nad oeddynt yn gallu mynychu'r gwrandawiad.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu . hachos

Nid oedd yr ymgeisydd wedi presennoli ei hun yn y cyfarfod, ac yn dilyn barn gyfreithiol gan y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol, cytunodd yr aelodau i ystyried y cais yn ei absenoldeb.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu bod y drwydded a ganiatwyd yn

2009 wedi dod i ben yn Rhagfyr 2010 a chynhaliwyd cyfarfod gyda'r ymgeisydd pryd y trafodwyd yr oriau y gofynnir amdanynt a'r amodau yr argymhellir gan yr heddlu. Nododd bod yr ymgeisydd yn cytuno â'r amodau. Yn wyneb hyn, nid oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais.

Adroddodd yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd – Llygredd bod ganddo bryderon parthed sŵn yn dod o'r eiddo o ganlyniad i'r adloniant bwriadedig ac argymhellodd osod amodau ar y drwydded i ymdrin â'r problemau hynny. 'Roedd yn derbyn bod angen eglurhad pellach parthed yr amod bwriadedig yn ymwneud â chau'r ffenestri a'r drysau. Derbyniodd hefyd y byddai agor drysau ar gyfer mynediad yn creu elfen o sŵn a fyddai'n anodd ei reoli'n ymarferol. Fodd bynnag, cytunodd y byddai amod yn ymwneud â chau ac agor drysau a ffenestri allanol yn yr ystafelloedd lle y cynhelir yr adloniant yn dderbyniol. Nododd iddo anfon copi o'r amodau at yr ymgeisydd am ei sylwadau ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb ganddo. Awgrymodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol na ddylid gosod amod 3(a) ar y drwydded sef "*os wedi cyhoeddi'r drwydded hon bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod 1 bydd perchennog yr eiddo'n gwneud unrhyw waith ynysu/arbed sŵn er mwyn sicrhau bod yr eiddo'n cydymffurfio ag amod 1*".

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol:-

- Y cafwyd trafferthion gyda'r eiddo ers cryn amser ac na chafodd ddefnydd fel gwesty ers oddeutu 3 neu 4 blynedd.
- Nad yw'r ymgeisydd yn byw ar y safle.
- Nad oes Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig ar gyfer yr eiddo ar hyn o bryd.
- Bod yr eiddo wedi dirywio'n ddiweddar a chafwyd achos o dân ar y maes parcio.
- Y byddai sŵn o'r eiddo'n effeithio ar fwynderau trigolion y tai cyfagos ac y dylid gosod peiriant i fonitro sŵn o fewn yr adeilad.
- Y sonir am osod "gazebo" ar y patio ger y drysau ffrengig ar flaen yr adeilad ac y byddai'r sŵn ohono'n debygol o amharu ar drigolion y tai gerllaw.
- Bod to'r eiddo mewn cyflwr gwael gyda'r canlyniad bod dŵr yn llifo i lawr y waliau mewnol.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Gwesty'r Harbwr, Lôn Engan, Abersoch, Pwllheli fel a ganlyn -**
**a) Caniatau cerddoriaeth fyw (paragraff E); Cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F); Cyfleusterau ar gyfer dawnsio (paragraff J) a chyflenwi alcohol (paragraff M) rhwng 11.00 a 00.30 bob dydd o'r wythnos.**
**b) Yr eiddo ar agor i'r cyhoedd (paragraff O) rhwng 08.00 a 01.00 bob dydd o'r wythnos.**
**c) Bydd teledu cylch cyfyng yn gweithio'n ddigon da i'r heddlu a'r awdurdod lleol allu monitro tu mewn a thu allan i'r eiddo yn cael ei osod mewn safleoedd i'w cytuno gyda'r heddlu ac yn weithredol pan fyddai'r eiddo ar agor ar gyfer y defnydd trwyddedig. Dylid cadw'r cofnodion mewn fformat heb ei olygu am gyfnod o ddim llai na 31 diwrnod ac ar gael ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
**ch) Bydd yr eiddo'n aelod o'r Cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau gwarchod tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i orchmynion gwahardd mewn perthynas ag unigolion.**

**d) Bydd Goruchwylwyr Drysau cofrestredig gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (ADD) ar ddyletswydd bob tro yn ystod digwyddiadau sy'n cynnwys cerddoriaeth a dawnsio yn yr eiddo.**
**dd) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os yn berthnasol). Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**
**e) Y defnyddir gwydrau plastig ar ôl 20.00 yn y bar a leolwyd ar lawr isaf yr eiddo.**
**f) Rhoddir posteri amlwg, clir ac eglur wrth bob allanfa yn gofyn i'r cwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol ac i adael yr eiddo a'r ardal yn dawel.**
**ff) Bydd yr eiddo'n gweithredu polisi "Herio 21", a olygai y bydd unrhyw berson sy'n edrych dan 21 oed yn gorfod arddangos dogfen prawf oed cydnabyddedig.**
**g) Gosod yr amodau canlynol a amlinellwyd gan yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd - Llygredd -**
**i) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15 munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz o fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo drwyddedig. I bwrpas yr amod hon mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:1997.**
**ii) Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri allanol yr ystafell adloniant yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant. Ni chaniateir mynediad allanol lle y cynhelir yr adloniant ar wahân mewn achosion o argyfwng tân.**
**iii) Gosod dyfais rheoli sŵn yn yr ystafell/oedd lle cynhelir yr adloniant. Bydd y ddyfais wedi ei sefydlu i dorri cyflenwad trydan unrhyw system sain neu wrthsefyll cynnydd mewn lefel sŵn uwchlaw'r hyn a sefydlwyd fel uchafswm caniataeedig.**
**iv) Unwaith bydd lefel ar unrhyw ddyfais rheoli sŵn sydd wedi ei osod yn cael ei sefydlu, nid yw'r lefel yma i'w newid heb ymgynghoriad â Swyddog Iechyd Amgylchedd Llygredd, Cyngor Gwynedd.**
**v) Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng 22.00 a 08.00. Bydd y poteli'n cael eu cadw o fewn libart yr eiddo mewn sgip neu bin gyda chaead.**
**vi) Bydd arwyddion clir a dealladwy'n cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sy'n gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, yn arbennig yn eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau cerbydau na chanu cyrn cerbydau.**
**vii) Mae'n ddyletswydd i ddaliwr trwydded personol yr eiddo, y goruchwyliwr eiddo dynodedig a'r goruchwyliwr drysau i fonitro ymddygiad yr unigolion sy'n gadael yr eiddo a'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb cyhoeddus lle sydd angen.**
**viii) Nid yw arogleuon annymunol o'r eiddo i achosi niwsans i eiddo cyfagos.**

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.45pm